




Gwell Cysylltiad, Gwell Canlyniadau ar Gyfer Tlodi Plant

Y dystiolaeth sy'n sail i'r asesiad o anghenion ar gydweithio

Adolygiad llenyddiaeth pragmatig

Mawrth 2025



Adeiladu Cymru
Iachach
Building a Healthier
Wales

Dr Eugenia Cronin,
Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd (Locwm)

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi yn benodol ar gyfer y cynulleidfaoedd canlynol:

- Cadeiryddion ac aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cadeiryddion ac aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Cadeiryddion ac aelodau byrddau partneriaeth eraill sy'n ymwneud y chyflawni strateggaeth Tlodi Plant Cymru

Effallai y bydd darllenwyr yn gweld bod hwn yn adnodd defnyddiol i'w ystyried wrth werthuso eu partneriaethau, sut maent yn gweithio, parodrwydd y sefydliadau sy'n cymryd rhan i gydweithio, a ble efallai bod angen iddynt ganolbwyntio er mwyn gwella cydweithio fel bod gwerth yn cael ei greu a nodau'n cael eu cyflawni.

“Er mwyn ysgogi'r newid sydd ei angen a chael effaith diriaethol ar tlodi plant, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru yn cydweithio ... [mae] angen cydgysylltu a chydweithio cryfach rhwng sefydliadau sy'n gweithio ar lefelau lleol a rhanbarthol i drechu tlodi, gan gynnwys tlodi plant”, Strategaeth Tlodi Plant Cymru, 2024

Mae tri deg y cant o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi, ac maent yn marw'n iau. Mae byw mewn tlodi yn effeithio ar gyfleoedd plentyn i fyw bywyd iach, cael addysg dda, a'u rhagolygon gwaith yn y dyfodol. Mae tlodi yn effeithio'n wael ar fywydau plant a theuluoedd mewn amrywiaeth o ffyrdd, o lesiant cymdeithasol ac emosiynol i gyflawniad addysgol.

Wrth ddatblygu [Strategaeth Tlodi Plant Cymru](#), dywedodd pobl wrth Lywodraeth Cymru nad yw 'pethau'n gydgysylltiedig'. Dywedon nhw y gall fod yn anodd cael darlun da o'r hyn y mae sefydliadau gwahanol yn ei wneud mewn ardaloedd a rhanbarthau lleol.

Un o ddibenion Adeiladu Cymru lachach yw cefnogi cydweithio rhwng sectorau. Yn ystod 2025, mae Adeiladu Cymru lachach yn cynnal asesiad o anghenion ar gydweithio â phartneriaethau sy'n ymwneud â chyflawni'r Strategaeth Tlodi Plant, er mwyn nodi galluogwyr system a fydd yn cefnogi'r partneriaethau hynny.

Mae cydweithio yn gonglfaen i'r Strategaeth, felly bydd taflu goleuni ar sut i hwyluso a gwella cydweithio yn cefnogi'r broses o'i roi ar waith.

Roeddem eisiau sicrhau bod yr asesiad o anghenion yn gofyn y cwestiynau cywir am gydweithio, felly aethom ati i adolygu'r llenyddiaeth ar nodweddion cydweithio llwyddiannus rhwng sectorau.

Cydweithio rhwng sectorau

Diben yr adolygiad oedd ein helpu i ddatblygu offer casglu data er mwyn archwilio anghenion cydweithio'r rhai sy'n gweithio tuag at gyflwyno rhaglenni i fynd i'r afael â phroblem ieched y cyhoedd fawr yng Nghymru, sef lleihau a lliniaru tlodi plant.

Fe wnaethom archwilio'r maes llenyddiaeth arwyddocaol ar gydweithio rhwng sectorau sy'n cynnwys disgyblaethau ieched y cyhoedd, polisi cymdeithasol a rheolaeth gyhoeddus. Ceisiodd yr adolygiad nodi nodweddion cydweithio effeithiol yn yr ystod o gyd-destunau lle caiff ei ddefnyddio. Ni ddaeth astudiaethau yn trafod cydweithio rhwng sectorau yng nghyd-destun polisi tlodi plant i'r amlwg yn benodol ac nid ydym yn gweld unrhyw reswm pam y byddai cydweithio rhwng sectorau yn y cyd-destun hwn yn wahanol i gydweithio ar setiau eraill o nodau polisi. Yn wir, gallai canfyddiadau'r adolygiad hwn fod yn berthnasol i lawer o feysydd gweithredu polisi sy'n dibynnu ar gydweithio rhwng sectorau.

Mae archwilio'r llenyddiaeth wedi gwella ein gwerthfawrogiad o gymhlethdod cydweithio rhwng sectorau, a sut i sicrhau ei fod yn cyflawni – neu fod 'pethau da yn digwydd'¹.

Gall cydweithrediadau rhwng sectorau fod yn gymhleth, ac mae angen arddull arbennig o arweinyddiaeth arnynt

Gall cydweithrediadau rhwng sectorau fod yn gymhleth, gan gynnwys cymysgedd dryslyd o nodau unigol, sefydliadol a chydweithio sy'n newid dros amser. Mae hyn yn cyflwyno her arweinyddiaeth o ran cysoni amodau, strwythurau, prosesau, canlyniadau ac atebolrwydd cychwynnol mewn ffordd gynaliadwy dros amser, fel y gellir creu gwerth cyhoeddus.¹ Yn hyn o beth, yr hyn sy'n allweddol yw nodi strategaethau lle mae pawb ar ei ennill² a datblygu ymddiriedaeth a chyffredinoldeb³.

Mae sawl agwedd i gydweithio rhwng sectorau, gan gynnwys sefydliadau'n cysylltu neu'n rhannu gwybodaeth, adnoddau, gweithgareddau a galluoedd er mwyn cyflawni canlyniad ar y cyd na allai sefydliadau mewn un sector ei gyflawni ar wahân.¹ Gall gweithgaredd cydweithredol gynnwys polisi, strategaeth, dylunio a darparu gwasanaethau² a defnyddio setiau data gweinyddol cyffredin⁴. Felly, mae gwaith effeithiol rhwng sectorau yn ymwneud â chydweithio'n strategol ac yn weithredol, ac nid dim ond yn ymwneud â meithrin partneriaethau'n ofalus. ⁵Er hynny, gall partneriaeth ffurfiol fod yn rhan o'r cydweithrediad a hyd yn oed yn rhan weladwy bwysig ohono.

Nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol bwysigrwydd arddull arweinyddiaeth sy'n annog cydweithio'n benodol⁴, tra bod eraill wedi dweud bod cydweithio rhwng sectorau yn galw am arweinyddiaeth wedi'i haddasu sy'n pwysleisio'r gallu i ysgogi gweithredu ar y cyd, ac ar ddysgu ac addasu.

Efallai na fydd cydweithio effeithiol rhwng sectorau'n 'digwydd ar ei ben ei hun'

Mae angen cynllunio cydweithrediadau rhwng sectorau'n fwriadol, fel bod prosesau a strwythurau'n arwain at gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Dylid cynnwys dysgu parhaus yn y gwaith cynllunio, gan gynnwys dysgu am ba nodau a dangosyddion perfformiad y dylid eu cynnwys.¹ Yn wir, bydd y mesurau a'r metrigau cywir yn helpu i greu'r amgylchedd a'r fframwaith y gall cydweithio ddigwydd yn naturiol ynddo.⁵

Yn aml mae yna ddiffyg mecanweithiau sefydliadol i alluogi cydweithio rhwng sectorau⁶. Mae angen i sefydliadau sy'n cymryd rhan fod yn barod i gydweithio, gyda mecanweithiau cydweithredol ar waith a staff sy'n fedrus wrth weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Rhan o fod yn barod ar gyfer cydweithio yw cysoni nodau'r cydweithrediad â busnes craidd neu genhadaeth yr asiantaeth a'r sector⁷, a bydd gofyn am strwythurau sefydliadol cydweithredol sy'n gosod y paramedrau ar gyfer y broses gydweithio⁸.

Efallai y bydd angen hyfforddi staff i gydweithio rhwng sectorau a sefydliadau, ac efallai y gall datblygu staff ar y cyd rhwng sectorau a sefydliadau fod o fudd. Mae gan y rhai sy'n fedrus wrth groesi ffiniau ystod o gymwyseddau megis

meithrin perthnasoedd cynaliadwy, rheoli trwy ddylanwadu a negodi, rheoli cymhlethdod a rhyngddibyniaethau, a rheoli rolau, atebolrwydd a chymhellion.⁹

Mae sylwebyddion yn dweud bod cydweithrediadau rhwng sectorau wedi cynyddu'n fawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond nad ydynt yn ddatrasiad hawdd i broblemau cyhoeddus cymhleth¹. Bu galwadau am werthuso cydweithrediadau rhwng sectorau yn fanylach, ac am fwy o fanylion mewn canllawiau ynghylch sut y dylid sefydlu, rheoli a chyflwyno modelau^{4 5}.

Iechyd y Cyhoedd ar flaen y gad?

Rydym wedi archwilio maes ymchwil sylweddol sydd â diddordeb mewn cydweithio rhwng sectorau, ac mae hyn yn croesi amrywiol ddisgyblaethau academaidd, gan gynnwys iechyd y cyhoedd. Mae'r llenyddiaeth ryngwladol yn awgrymu bod iechyd y cyhoedd yn tueddu i fod ar flaen y gad o ran dulliau cydgysylltiedig. Nid yn unig bod angen cydweithio i wella iechyd y cyhoedd, ond hefyd mae dilyn cenhadaeth iechyd y cyhoedd yn debygol o ysgogi gweithio cydgysylltiedig ac arwain at arloesiadau o ran systemau.⁵

Nodweddion cydweithio rhwng sectorau

Nododd yr adolygiad llenyddiaeth set o nodweddion cydweithio rhwng sectorau effeithiol, sy'n ymwneud â'r *bartneriaeth benodol* ei hun ac â'r sefydliad sy'n cymryd rhan.

Rydym wedi newid y nodweddion y gwnaethom eu canfod yn yr adolygiad llenyddiaeth yn ddatganiadau (gweler Tabl 1 isod), sydd wedi cael eu defnyddio mewn holiadur ar bwnc tlodi plant yng Nghymru. Mae Tabl 1 yn dangos y datganiadau hyn a'r cyfeiriad neu'r cyfeiriadau y cawsant eu seilio arnynt yn wreiddiol.

Efallai y bydd darllenwyr yn gweld bod hon yn rhestr ddefnyddiol i'w hystyried wrth werthuso eu partneriaethau, sut maent yn gweithio, parodrwydd y sefydliadau sy'n cymryd rhan i gydweithio, a ble efallai bod angen iddynt ganolbwyntio er mwyn gwella cydweithio fel bod gwerth yn cael ei greu a nodau'n cael eu cyflawni.

Tabl 1

Nodweddion cydweithio llwyddiannus rhwng sectorau sy'n ymwneud â'r Bartneriaeth	
1.	Ceir cyd-ddealltwriaeth glir o nodau'r bartneriaeth ^{9 10 11}
2.	Deellir blaenoriaethau a gwrthdaro polisi gwahanol ¹²
3.	Cydnabyddir amrywiaeth y diwylliannau sefydliadol gwahanol ⁹
4.	Adlewyrchir gwerthoedd craidd pob sector yng ngwaith y bartneriaeth ¹³
5.	Mae ffyrdd o weithio yn meithrin ymddiriedaeth ac yn golygu bod pobl yn teimlo bod ganddynt lais cyfartal waeth beth fo'u lefelau dylanwad gwleidyddol neu adnoddau ³
6.	Mae ymrwymiad strategol gan bob partner i fod yn berchen ar y cydweithrediad/y bartneriaeth ¹⁴

7.	Mae cyfrifoldebau partneriaid ar gyfer gweithgareddau penodol yn glir ^{4 15 16}
8.	Gwrandewir ar bob partner a chânt eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau ³
9.	Ceir cyfathrebu dwy ffordd rheolaidd ^{7 12}
10.	Mae strategaethau lle mae pawb ar ei ennill wedi'u nodi gan y partneriaid dan sylw ²
11.	Mae gan y bartneriaeth ddiwylliant dysgu a gwerthuso, ac mae'n rhannu arferion da a gwersi a ddysgwyd ^{1 12 16}
12.	Mae arddull arweinyddiaeth y bartneriaeth yn hwyluso ffyrdd cydweithredol o weithio ^{3 17}
13.	Meithrinwyd datblygiad y cydweithrediad/y bartneriaeth ar berthnasoedd a oedd yn bodoli eisoes ^{7 15}
14.	Cynlluniwyd prosesau a strwythurau'r cydweithrediad/y bartneriaeth fel bod y canlyniadau yr hoffem eu gweld yn cael eu cyflawni ¹
15.	Mae data ar anghenion y boblogaeth yn llywio'r ddarpariaeth, a chaiff setiau data eu nodi a'u defnyddio ar y cyd ^{4 16}
16.	Mae gan y bartneriaeth fynediad at arbenigedd mewn gwerthuso ¹²
17.	Ceir proses rheoli perfformiad ystyrlon sydd wedi'i theilwra ⁹
18.	Mae pobl sydd â phrofiad bywyd o'r mater yn ymgysylltu ac yn gallu dylanwadu ar waith y bartneriaeth ²
19.	Mae modelau ariannu cynaliadwy ar waith ^{11 16}
20.	Mae strwythur rheoli pwrpasol ac mae parhad o ran staff ^{9 15 17}
21.	Mae cymorth ar gyfer dulliau cyllid a rennir ¹¹
22.	Mae cyfleoedd ar gyfer datblygu/hyfforddi'r gweithlu ar y cyd ¹¹
Nodweddion cydweithio llwyddiannus rhwng sectorau sy'n ymwneud â'r Sefydliad sy'n Cymryd Rhan	
1.	Mae arweinwyr yn annog, yn cydnabod ac yn gwobrwyo gweithio ar y cyd ar draws y sefydliad ⁴
2.	Mae nodau'r bartneriaeth yn gyson â busnes neu genhadaeth graidd y sefydliad ⁷
3.	Mae gweithgarwch cydweithredol yn rhychwantu polisi, strategaeth, a chynllunio a darparu gwasanaethau ²
4.	Mae cynlluniau corfforaethol yn cyfeirio at ariannu ar y cyd neu gyflenwi ar y cyd ¹⁸
5.	Mae staff yn barod i wneud gwaith rhyngasiantaethol ¹⁶
6.	Cefnogir staff i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen ar gyfer gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ⁹

Nodiadau ar fethodoleg a chyfyngiadau

Cynhaliwyd chwiliadau yn ystod Hydref/Tachwedd 2024.

Cymerwyd dull pragmatig:

- Chwiliwyd Google Scholar rhwng 2015 a 2024
- Cynhwyswyd cyhoeddiadau o ddisgyblaethau iechyd y cyhoedd, polisi cymdeithasol a rheolaeth gyhoeddus o gyfnodolion wedi'u hadolygu gan gymheiriaid.
- Sganiwyd y teitlau i ddechrau, ac yna adolygwyd crynodebau'r rhai a oedd yn ymddangos yn berthnasol, gan ddewis y rhai a oedd yn mynd i'r afael ag amcanion yr adolygiad (gweler Tabl 2)
- Ni chynhaliwyd asesiad ansawdd
- Fe wnaethom ychwanegu fframweithiau hysbys at y set o astudiaethau a nodwyd trwy chwilio am lenyddiaeth
- Fe wnaethom ddehongli nodweddion er mwyn creu datganiadau a fyddai'n gwneud synnwyr yn yr holiadur.

Tabl 2: Nifer y papurau a gafodd eu cyrchu yn yr adolygiad

<i>Amcanion yr adolygiad</i>	<i>Nifer y crynodebau wedi'u sganio</i>	<i>Rhestr hir o grynodedau</i>	<i>Rhestr fer o bapurau wedi'u cyhoeddi</i>
Nodi fframweithiau perthnasol sydd wedi'u cyhoeddi sy'n disgrifio nodweddion gwaith partneriaeth effeithiol yn y sector cyhoeddus	100	40	10
Nodi fframweithiau perthnasol sydd wedi'u cyhoeddi sy'n disgrifio nodweddion cydweithio effeithiol rhwng sectorau	50	8	6
Asesu fframweithiau hysbys o lenyddiaeth lwyd er mwyn nodi	Ddim yn berthnasol	7	5

nodweddion cydweithio effeithiol rhwng sectorau			
	150	55	21

Cyfeiriadau

- ¹ Bryson, J.M., Crosby, B.C. a Stone, M.M. (2015), Designing and Implementing Cross-Sector Collaborations: Needed and Challenging. *Public Admin Rev*, 75: 647-663.
- ² Such E, Smith K, Woods HB, Meier P. Governance of Intersectoral Collaborations for Population Health and to Reduce Health Inequalities in High-Income Countries: A Complexity-Informed Systematic Review. *Int J Health Policy Manag*. 2022 Rhagfyr 19;11(12):2780-2792
- ³ Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Cydweithio amlsector i wella llesiant cymunedol, Gorffennaf 2024
- ⁴ Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Cross-government working, Good practice guide for leaders and practitioners, Gorffennaf 2023
- ⁵ TRUUD (Tackling Root Causes Upstream of Unhealthy Urban Development), Joining up government for public health, Policy briefing, Medi 2024
- ⁶ Pescud M, Rychetnik L, Allender S, Irving MJ, Finegood DT, Riley T, Ison R, Rutter H, Friel S. From Understanding to Impactful Action: Systems Thinking for Systems Change in Chronic Disease Prevention Research. *Systems*. 2021; 9(3):61. <https://doi.org/10.3390/systems9030061>
- ⁷ Tooher R, Collins J, Braunack-Mayer A, Burgess T, Skinner S, O'Keefe M, Watson M, Marshall H, Intersectoral collaboration to implement school-based health programmes: Australian perspectives, *Health Promotion International*, Cyfrol 32, Rhifyn 2, Ebrill 2017, Tudalennau 312–321
- ⁸ Hendriks A, Jansen M, Gubbels J, De Vries N, Molleman G, Kremers S, Local government officials' views on intersectoral collaboration within their organization – A qualitative exploration, *Health Policy and Technology*, Cyfrol 4, Rhifyn 1, 2015, Tudalennau 47-57, ISSN 2211-8837
- ⁹ Cook, A (2015) Partnership Working Across UK Public Services Edinburgh: What Works Scotland
- ¹⁰ Potluka, O. A Conceptual Overview of How and Why to Evaluate Partnership. In *Transitioning to Strong Partnerships for the Sustainable Development Goals*. Golygwyd gan Georg von Schnurbein. *Transitioning to Sustainability Series 17*. Basel: MDPI
- ¹¹ El-Farargy, N. (2019), "Partnership working across sectors: a multi-professional perspective", *Journal of Integrated Care*, Cyfrol 27 Rhif 4, tt. 328-345
- ¹² Fynn, J. F., Milton, K., Hardeman, W., a Jones, A. P. (2022). A model for effective partnership working to support programme evaluation. *Evaluation*, 28(3), 284-307
- ¹³ Burgess T, Braunack-Mayer, Tooher R, Collins J, O'Keefe M, Skinner R, Watson M, Ashmeade H, Proeve C, Marshall H, Optimizing intersectoral collaboration between health and education: the Health Bridges study, *Journal of Public Health*, Cyfrol 38, Rhifyn 4, Rhagfyr 2016
- ¹⁴ Findlay P, Stewart R a Lindsay C. Review of Partnership Working in NHS Scotland, Scottish Centre for Employment Research, Prifysgol Strathclyde, 2019
- ¹⁵ Chantler, T., Bell, S., Saliba, V. et al. Is partnership the answer? Delivering the national immunisation programme in the new English health system: a mixed methods study. *BMC Public Health* 19, 83 (2019).
- ¹⁶ Connolly, J., Barnes, J., Guerra, J., a Pyper, R. (2020). The facilitators of interagency working in the context of European public service reform. *Contemporary Social Science*, 15(5), 533–547
- ¹⁷ Lagreid, P. and Rykkja, L.H. (2015), "Organizing for "wicked problems" – analyzing coordination arrangements in two policy areas: Internal security and the welfare administration", *International Journal of Public Sector Management*, Cyfrol 28 Rhif 6, tt. 475-493
- ¹⁸ Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, 2022